Estyn

Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

**Ymateb i Ymgynghoriad / Consultation Response**



| | |
|---|---|
| **Enw / Name:** | Owen Evans |
| **Rôl / Role:** | Prif Arolygydd Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru |
| **E-bost / Email:** | Prif-arolygydd@estyn.llyw.cymru |
| **Rhif Ffôn / Tel No:** | 029 2044 6446 |
| | |
| **Dyddiad / Date:** | 28/03/2024 |
| **Pwnc / Subject:** | **Plant a Phobl Ifanc sydd ar yr ymylon** |



**Gwybodaeth gefndir am Estyn**

Estyn yw Swyddfa Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Fel corff y Goron, mae rydym yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru.

Ein prif nod yw codi safonau a gwella ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Caiff hyn ei nodi yn Neddf Dysgu a Sgiliau 2000[1] a Deddf Addysg 2005 yn bennaf. Wrth gyflawni ei swyddogaethau, mae'n rhaid i ni ystyried:

- Ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Y graddau y mae addysg a hyfforddiant yn bodloni anghenion dysgwyr;
- Y safonau addysgol a gyflawnir gan y rhai sy'n cael addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth y darparwyr addysg a hyfforddiant hynny, gan gynnwys p'un a yw'r adnoddau ariannol sydd ar gael i'r rhai sy'n darparu addysg a hyfforddiant yn cael eu rheoli'n effeithlon a'u defnyddio mewn modd sy'n cynnig gwerth am arian;
- Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol dysgwyr; a'r
- Cyfraniad a wneir at les dysgwyr.

Mae ein cylch gwaith yn cynnwys (ond nid yn unig) meithrinfeydd a lleoliadau nas cynhelir, ysgolion cynradd, uwchradd, arbennig a phob oed, ysgolion annibynnol, unedau cyfeirio disgyblion, addysg bellach, dysgu oedolion yn y gymuned, gwasanaethau addysg llywodraeth leol, dysgu yn y gwaith, a hyfforddiant cychwynnol athrawon.

Gallwn roi cyngor i'r Senedd Cymru ar unrhyw fater sy'n gysylltiedig ag addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Er mwyn cyflawni rhagoriaeth i ddysgwyr, rydym wedi pennu tri amcan strategol:

- Darparu atebolrwydd i ddefnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Llywio datblygiad polisi cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru;

[1] Caiff y ddeddf hon ei disodli gan Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022, pan fydd y darpariaethau ansawdd yn dechrau.

- Meithrin gallu i wella'r system addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Nid yw'r ymateb hwn yn gyfrinachol.

**Ymateb**

**Cyflwyniad**

Mae Estyn yn croesawu'r ymchwiliad i Blant a Phobl Ifanc sydd ar yr Ymylon. Mae'n cydnabod bod hwn yn faes sy'n creu her sylweddol mewn ysgolion, unedau cyfeirio disgyblion, awdurdodau lleol a rhanbarthau ledled Cymru.

Mae Estyn yn gweithio'n agos gydag awdurdodau lleol trwy swyddogion allweddol, fel ein Harolygwyr Cyswllt Awdurdodau Lleol (ACALl). Fel rhan o'r rôl hon, mae Arolygwyr Cyswllt Awdurdodau Lleol wedi cynnal adolygiad o'r cymorth ar gyfer disgyblion bregus yn ddiweddar. Fel rhan o'r adolygiadau hyn, canfuom fod bron pob awdurdod lleol wedi sefydlu prosesau trylwyr i nodi plant sy'n colli addysg. Mae llawer o awdurdodau lleol yn gweithio'n agos gyda Gwasanaethau Plant ac Oedolion, trwy ystod o systemau defnyddiol, i fonitro plant sy'n colli addysg. Mae awdurdodau lleol yn gweithio'n galed i ymgysylltu â rhieni neu ofalwyr plant nad ydynt yn mynychu unrhyw ddarpariaeth addysgol mwyach i geisio'u cefnogi ac ail-ymgysylltu â nhw. Pan fydd plant yn symud allan o'r ardal neu ni ellir ymgysylltu â nhw, bydd y gwasanaethau addysg yn gwneud atgyfeiriadau priodol i wasanaethau cymdeithasol. Bydd y gofyniad arfaethedig i awdurdodau lleol sefydlu cronfa ddata o blant sy'n colli addysg a'r gofyniad i fyrddau iechyd lleol rannu gwybodaeth yn flynyddol am blant sy'n byw yn yr ardal yn cryfhau'r trefniadau. Gallai cronfa ddata genedlaethol helpu cryfhau gwaith ymhellach i nodi a chefnogi plant sy'n colli addysg sy'n symud rhwng ardaloedd awdurdodau lleol.

Pan fydd gan awdurdodau lleol nifer uwch o blant sydd â phrofiad o fod mewn gofal, a lefelau uwch o dlodi, dywed swyddogion mewn addysg fod cyfraddau plant sy'n colli addysg yn aml yn uwch. Mae'r broblem hon wedi cael ei gwaethygu gan niferoedd y plant sy'n ffoaduriaid ac yn geiswyr lloches, ac yn enwedig y rhai sydd ar eu pen eu hunain. Daw un enghraifft o hyn o awdurdod lleol Casnewydd. Mae arweinwyr addysg yng Nghasnewydd, mewn partneriaeth â gwasanaethau cymdeithasol, wedi nodi bod hwn yn faes angen cynyddol o ran plant sy'n colli addysg. Maent wedi datblygu ymateb ar y cyd trwy weithredu prosiect newydd sydd wedi'i gynllunio i ddarparu llety ar gyfer plant sy'n ffoaduriaid ar eu pen eu hunain. Bydd y llety mewn ardal lle mae lleoedd ysgol dros ben, i sicrhau bod y plant hyn yn gallu cael addysg yn lleol i ble maent yn byw. Yn y gorffennol, byddai llawer o'r plant hyn wedi bod yn colli addysg.

**Barn ar blant a phobl ifanc sy'n ddioddefwyr camfanteisio troseddol.**

Mae Estyn yn ymwybodol o'r materion ynghylch pobl ifanc sy'n ddioddefwyr camfanteisio troseddol. Mae hyn yn destun pryder penodol i ysgolion mewn ardaloedd o amddifadedd sylweddol. Yn ychwanegol, mae hefyd yn destun pryder sylweddol mewn unedau cyfeirio disgyblion (UCDau), lle bydd llawer o'r plant a'r bobl ifanc sy'n manteisio ar y ddarpariaeth hon wedi cael eu gwahardd o addysg yn y gorffennol, gan eu gadael yn agored i gamfanteisio. Mae grwpiau eraill sydd mewn perygl yn cynnwys plant â phrofiad o fod mewn gofal, plant sy'n profi trawma yn y cartref a phlant sy'n ffoaduriaid ar eu pen eu hunain.

Yn gyffredinol, mae ysgolion yn adnabod eu disgyblion yn dda ac yn gwybod yn dda am eu hamgylchiadau. Ers y pandemig, mae llawer ohonynt wedi sefydlu cofrestrau disgyblion bregus. Bydd awdurdodau lleol a rhanbarthau yn ymwybodol o gamfanteisio ar

blant trwy fyrddau diogelu lleol a rhanbarthol. Yn aml, bydd gan awdurdodau lleol systemau a phrosesau i nodi a chefnogi'r plant a'r bobl ifanc hyn.

Trwy bolisi Llywodraeth Cymru ar Ysgolion Rhithwir, ceir llawer o enghreifftiau buddiol ledled Cymru o awdurdodau lleol yn annog plant a phobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal yn ôl i addysg ac i ffwrdd o niwed. Yn ychwanegol, pan fydd Gwasanaethau Lles Addysg, Gwasanaethau Ieuenctid a Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid wedi'u datblygu'n dda, ac yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr mewn addysg, ceir enghreifftiau o arfer lwyddiannus wrth weithio gyda phlant a phobl ifanc sy'n colli addysg ac mewn perygl o gamfanteisio. Pan mae hyn yn llwyddiannus, mae gan y gwasanaethau hyn mewn awdurdodau lleol ymagweddau cyffredin at atal ac ymyrraeth gynnar. Maent yn darparu cymorth amserol ac mae ganddynt strategaethau ymadael clir. Hefyd, rhennir proses rhannu gwybodaeth a chasglu data trwy systemau cyffredin. Fodd bynnag, ceir amrywiad sylweddol o ran darparu'r gwasanaethau hyn ledled Cymru, i sicrhau nad yw plant yn colli addysg.

Roedd yr Arolygiadau Ar y Cyd o Drefniadau Amddiffyn Plant, a gynhaliom ar y cyd ag Arolygiaeth Gofal Cymru, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ac Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Fawrhydi a'r Gwasanaethau Tân ac Achub, yn gyfrwng buddiol i dynnu sylw at y gwaith amlasiantaethol sy'n cael ei wneud i nodi a chefnogi plant a phobl ifanc sydd ar yr ymylon. Yn anffodus, nid oes cynllun presennol i barhau â'r arolygiadau hyn oherwydd yr heriau ariannol presennol ar draws gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

**Barn ar grwpiau eraill o blant sydd ar yr ymylon.**

Yn ogystal â'r grwpiau a nodwyd yn yr ymchwiliad hwn, mae Estyn o'r farn y gallai hefyd fod yn ddefnyddiol ystyried plant a phobl ifanc sydd:

- Yn cael trafferth â'u lles emosiynol a'u hiechyd meddwl
- Yn ddibynnol ar gyffuriau ac alcohol
- Yn anabl neu ag anghenion dysgu ychwanegol cymhleth
- Yn dilyn amserlenni rhan-amser a chynlluniau cymorth bugeiliol (CCBau)
- Yn ofalwyr ifanc

**Cwestiynau'r ymgynghoriad**